

## WILLIAMS, EDMUND (1717 - 1742), un o emynwyr cynnar y diwygiad Methodistaidd

**Enw:** Edmund Williams

**Dyddiad geni:** 1717

**Dyddiad marw:** 1742

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** un o emynwyr cynnar y diwygiad Methodistaidd

**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Barddoniaeth

**Awdur:** Arthur Gray-Jones

Brodor o Gwm Tylery, sir Fynwy, ac un o ddychweledigion **Howel Harris** ar ei daith bregethu gyntaf yn sir Fynwy - Mawrth ac Ebrill 1738. Eglwyswr ydoedd, o deulu da ac yn dda ei fyd. Cafodd addysg dda. Yr oedd yn ŵr defosiydol ac o dan ddylanwad **Harris** daeth yn 'gyngorwr mawr ei barch ymysg y Methodistiaid.' Cyhoeddodd ef a'i gyfaill **Morgan John Lewis**, yntau yn gyd-ddychweledig ag ef, gasgliad o emynau Cymraeg a argraffwyd gan S. Mason, Pontypŵl, yn 1741. Cyhoeddwyd, wedi ei farw, gasgliad arall o'i emynau - gan Felix Farley, Bryste, y tro hwn. Dywed **Edmund Jones**, Y Tranch, Pontypŵl, iddo gyhoeddi hefyd 'rywbeth yn erbyn dawnsio.' Bu farw yn Ebrill a'i gladdu 17 Ebrill 1742.

### Awdur

**Arthur Gray-Jones**

### Ffynonellau

Edmund Jones, *A geographical, historical and religious account of the parish of Aberystroth in the county of Monmouth to which are added memoirs of several persons of note who lived in the said parish* (Trefeca 1779)

dyddiaduron Howel Harris

W. Rowlands, *Llyfryddiaeth y Cymry* (Llanidloes 1869), 388

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20751800](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawffraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Gray-Jones, A., (1953). WILLIAMS, EDMUND (1717 - 1742), un o emynwyr cynnar y diwygiad Methodistaidd. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-WILL-EDM-1717>

CC-BY-SA

Preifatrwydd a Chwci  
Hawffraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddi  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government